

Adroddiad Arolygu Ysbyty (Dirybudd)

Yr Adran Achosion Brys, Ysbyty
Athrofaol Cymru, Bwrdd Iechyd
Prifysgol Caerdydd a'r Fro

Dyddiad yr arolygiad: 4, 5 a 6 Mawrth 2024

Dyddiad cyhoeddi: 06 Mehefin 2024



Gellir darparu'r cyhoeddiad hwn a gwybodaeth arall gan AGIC mewn fformatau neu ieithoedd amgen ar gais. Bydd oedi byr wrth i ieithoedd a fformatau eraill gael eu cynhyrchu pan ofynnir amdanynt i ddiwallu anghenion unigol. Cysylltwch â ni am gymorth.

Bydd copïau o'r holl adroddiadau, pan gânt eu cyhoeddi, ar gael ar ein [gwefan](#) neu drwy gysylltu â ni:

Yn ysgrifenedig:

Rheolwr Cyfathrebu
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru
Llywodraeth Cymru
Parc Busnes Rhyd-y-car
Merthyr Tudful
CF48 1UZ

Neu

Ffôn: 0300 062 8163
E-bost: AGIC@llyw.cymru
Gwefan: www.agic.org.uk

ISBN Digidol 978-1-83625-164-4

© Hawlfraint y Goron 2024

Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) yw arolygiaeth a rheoleiddiwr annibynnol gofal iechyd yng Nghymru

Ein diben

Gwirio bod gwasanaethau gofal iechyd yn cael eu darparu mewn ffordd sy'n mwyafu iechyd a llesiant pobl.

Ein gwerthoedd

Mae pobl wrth wraidd yr hyn a wnawn. Rydym yn:

- Annibynnol - rydym yn ddi-dduedd, yn penderfynu pa waith rydym yn ei wneud a lle rydym yn ei wneud
- Gwrthrychol - rydym yn rhesymol ac yn deg ac yn gweithredu ar sail tystiolaeth
- Pendant - rydym yn gwneud dyfarniadau clir ac yn cymryd camau i wella safonau gwael ac amlygu'r arferion da rydym yn dod ar eu traws
- Cynhwysol - rydym yn gwerthfawrogi ac yn annog cydraddoldeb ac amrywiaeth drwy ein gwaith
- Cymesur - rydym yn ystwyth ac yn gwneud ein gwaith lle mae o'r pwys mwyaf

Ein nod

Bod yn llais dibynadwy sy'n ysgogi gwelliant mewn gofal iechyd ac sy'n dylanwadu arno

Ein blaenoriaethau

- Byddwn yn canolbwyntio ar ansawdd y gofal iechyd a ddarperir i bobl a chymunedau wrth iddynt gyrchu gwasanaethau, eu defnyddio a symud rhyngddynt
- Byddwn yn addasu ein dull gweithredu i sicrhau ein bod yn ymatebol i risgiau i ddiogelwch cleifion sy'n dod i'r amlwg
- Byddwn yn cydweithio er mwyn ysgogi'r gwaith o wella systemau a gwasanaethau ym maes gofal iechyd
- Byddwn yn cefnogi ac yn datblygu ein gweithlu i'w galluogi nhw, a'r sefydliad, i gyflawni ein blaenoriaethau.



Cynnwys

1.	Yr hyn a wnaethom	5
2.	Crynodeb o'r arolygiad	6
3.	Yr hyn a nodwyd gennym	10
	• Ansawdd Profiad y Claf	10
	• Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol	14
	• Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth	20
4.	Y camau nesaf	23
	Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad	24
	Atodiad B - Cynllun Gwella ar Unwaith	25
	Atodiad C - Cynllun gwella.....	30

1. Yr hyn a wnaethom

Ceir manylion llawn am y ffordd rydym yn arolygu'r GIG ac yn rheoleiddio darparwyr gofal iechyd annibynnol yng Nghymru ar ein [gwefan](#).

Cwblhaodd Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru (AGIC) arolygiad dirybudd yn Ysbyty Athrofaol Cymru, Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro ar 4, 5 a 6 Mawrth 2024. Adolygwyd yr ardaloedd canlynol yn ystod yr arolygiad hwn:

- Yr Adran Achosion Brys
- Yr Uned Penderfyniadau Clinigol
- Yr Adran Achosion Brys Pediatrig.

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom wahodd y cleifion neu eu gofalwyr i gwblhau holiadur er mwyn dweud wrthym am eu profiad o ddefnyddio'r gwasanaeth. Gwnaethom hefyd wahodd y staff i gwblhau holiadur er mwyn rhoi eu barn i ni ar weithio i'r gwasanaeth. Cwblhawyd cyfanswm o 12 holiadur gan gleifion neu eu gofalwyr a chwblhawyd 24 gan y staff. Mae'r adborth a rhai o'r sylwadau a gafwyd yn ymddangos yn yr adroddiad.

Lle bo dyfyniadau yn y cyhoeddiad hwn, mae'n bosibl eu bod wedi cael eu cyfieithu o'u hiaith wreiddiol.

Roedd ein tîm ar gyfer yr arolygiad yn cynnwys tri Arolygydd Gofal Iechyd AGIC, tri adolygydd cymheiriaid clinigol ac adolygydd profiad y claf. Arweiniwyd yr arolygiad gan un o Uwch-arolygwyr Gofal Iechyd AGIC.

Noder bod canfyddiadau'r arolygiad yn ymwneud â'r adeg y cynhaliwyd yr arolygiad.

Mae'r adroddiad (llawn) hwn wedi'i gynllunio ar gyfer y lleoliad, ac mae'n disgrifio'r holl ganfyddiadau sy'n ymwneud â darparu gofal diogel a dibynadwy o ansawdd uchel sy'n canolbwyntio ar gleifion unigol.

Mae fersiwn gryno o'r adroddiad, sydd wedi'i chynllunio ar gyfer aelodau'r cyhoedd, ar gael ar ein [gwefan](#).

2. Crynodeb o'r arolygiad

Ansawdd Profiad y Claf

Crynodeb cyffredinol:

Dywedodd y mwyafrif o'r cleifion wrthym fod y staff wedi eu trin â pharch a'u bod wedi cymryd camau i ddiogelu eu preifatrwydd wrth gael eu gweld yn yr Adran Achosion Brys.

Ar y cyfan, roedd y cleifion yn cytuno bod y staff yn rhoi digon o wybodaeth iddynt i'w helpu i ddeall eu gofal iechyd a'u cyflyrau meddygol.

Gwelsom fod yr amgylchedd yn yr Adran Achosion Brys wedi gwella ers yr arolygiad diwethaf ym mis Mehefin 2022 a'i fod yn cynnal preifatrwydd ac urddas y cleifion. Nododd y sylwadau gan y staff hefyd eu bod yn teimlo bod yr amgylchedd wedi gwella a'i fod yn hyrwyddo gofal ag urddas i'r cleifion.

Roedd yr iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol yn yr Adran Achosion Brys. Gwelsom fod amrywiaeth o daflenni ar gael yn rhoi cyngor i'r cleifion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau, fodd bynnag, roedd diffyg cyngor hybu iechyd yn cael ei arddangos.

Er bod gwybodaeth am 'Gweithio i Wella' ar gael, nid oedd yn cael ei harddangos yn amlwg yn yr Adran Achosion Brys.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod gwybodaeth hybu iechyd yn cael ei harddangos yn yr ardaloedd i gleifion.
- Dylai'r bwrdd iechyd arddangos gwybodaeth ar gynllun yr adran gan gynnwys llwybrau i gleifion.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd yr amgylchedd yn hyrwyddo preifatrwydd ac urddas
- Gwelwyd bod y staff yn trin y cleifion â pharch
- Roedd yr iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo ym mhob rhan o'r adran.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Crynodeb cyffredinol:

Roedd yr adran wedi'i hadnewyddu'n ddiweddar ac roedd yr ardaloedd clinigol wedi cael eu hadleoli. Gwelsom fod amgylchedd ffisegol yr Adran Achosion Brys wedi'i

gynllunio'n dda a'i fod yn cael ei gynnal i safon briodol. Fodd bynnag, gwelsom fod angen trwsio'r drysau sy'n arwain at rannau eraill o'r ysbyty.

Yn yr Adran Achosion Brys, ar y cyfan, roedd y cofnodion cleifion a welsom yn dangos bod y staff nyrsio wedi asesu'r cleifion ar gyfer eu risg o ddatblygu briwiau pwyso ac wedi darparu gofal croen. Roedd y cofnodion hefyd yn dangos bod y staff nyrsio wedi asesu'r cleifion ar gyfer eu risg o gwmpo.

Gwelsom fod prosesau addas ar waith i atal heintiau a ddelir wrth gael gofal iechyd ac roedd modd glanhau'r arwynebau yn briodol.

Gwelsom fod proses ddigidol ar waith i wirio'r cyfarpar brys ac roedd y broses hon yn cael ei chynnal yn rheolaidd. Fodd bynnag, gwelsom nad oedd tymheredd un oergell feddyginiaeth yn yr ardal anafiadau difrifol wedi cael ei wirio'n rheolaidd.

Ni chawsom sicrwydd bod dyddiadau defnyddio meddyginiaethau yn cael eu gwirio'n rheolaidd.

Ni chawsom sicrwydd bod y cyfarpar meddygol yn cael ei wasanaethu a'i galibradu'n briodol i sicrhau diogelwch y cleifion.

Dyweddodd y staff wrthym yn gyffredinol nad oedd y cyfarpar sydd ei angen arnynt fel thermomedrau a pheiriannau cofnodi arwyddion hanfodol i fywyd ar gael yn hawdd.

Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff nifer o fentrau parhaus i ddatblygu a gwella'r gwasanaeth i'r cleifion. Dywedwyd wrthym fod gwasanaeth y Parth Asesu a Thrin yn Gyflym (RATz) wedi bod yn gadarnhaol iawn o ran lleihau amseroedd aros i gleifion priodol.

Materion lle mae angen sicrwydd ar unwaith:

- Daethpwyd o hyd i feddyginiaeth yr oedd y dyddiad defnyddio arni wedi mynd heibio yn yr ystafell storio cyffuriau dadebru
- Nid oedd gwiriadau rheolaidd yn cael eu cynnal o dymheredd oergell feddyginiaeth yr adran anafiadau difrifol
- Ni chawsom sicrwydd fod y cyfarpar yn cael ei wasanaethu'n effeithiol.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod digon o gyfarpar monitro ar gael i'r staff
- Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod y drysau sy'n arwain at ardaloedd eraill o'r ysbyty yn cael eu trwsio.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd prosesau priodol ar waith i sicrhau trefniadau digonol ar gyfer rheoli heintiau
- Roedd yr uned penderfyniadau clinigol yn cynnig ardal lle gall cleifion y mae angen iddynt aros am gyfnod hirach wneud hynny heb orfod bod yn y brif adran achosion brys
- Disgrifiwyd mentrau i wella'r gwasanaeth a ddarperir i'r cleifion.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Crynodeb cyffredinol:

Roedd strwythur rheoli addas ar waith a disgrifiodd yr uwch-aelodau o staff linellau adrodd clir. Roedd y rheolwyr yn weladwy ac roeddent yn ymddangos yn gefnogol.

Gwelsom dystiolaeth o fentrau newydd i wella lefelau cadw staff, gan gynnwys llwybr sefydlu ar gyfer staff newydd gyda chefnogaeth nyrs diwtora. Roedd hyn yn cynnwys cysgodi staff profiadol, cwblhau cymwyseddau a hyfforddiant dros gyfnod o ddeuddeg mis.

Gwelsom fod archwiliadau perthnasol yn cael eu cynnal, fodd bynnag, nid oedd canlyniadau'r rhain yn cael eu harddangos yn yr adran.

Gwelsom fod y cyfraddau cydymffurfio ar gyfer hyfforddiant gorfodol yn briodol ar y cyfan. Fodd bynnag, roedd y cyfraddau cydymffurfio ar gyfer hyfforddiant diogelwch tân, Cynnal Bywyd Sylfaenol a Chynnal Bywyd Brys Pediatrig yn isel.

Ymatebodd 23 o aelodau o staff i'n holiadur staff. Roedd ymatebion y staff yn gymysg, ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn ei roi i gleifion. Gwnaeth rhai o'r staff sylwadau ar sut y gellid gwella'r gwasanaeth.

Rydym yn argymhell y gall y gwasanaeth wella'r canlynol:

- Dylai'r bwrdd iechyd ystyried arddangos canlyniadau archwiliadau.
- Dylai'r bwrdd iechyd ystyried sylwadau a wnaed gan y staff yn arolwg staff AGIC.
- Dylai'r bwrdd iechyd weithio i wella cyfraddau cydymffurfio o ran hyfforddiant diogelwch tân, Cynnal Bywyd Sylfaenol a Chynnal Bywyd Brys Pediatrig.

Dyma beth roedd y gwasanaeth yn ei wneud yn dda:

- Roedd strwythur rheoli addas ar waith
- Roedd y rheolwyr yn weladwy yn yr adran ac yn rhoi cymorth uwch

- Roedd y broses sefydlu yn gadarn ac yn gefnogol ar gyfer aelodau newydd o staff.

Mae manylion y pryderon am ddiogelwch cleifion a'r gwelliannau a'r camau unioni sydd eu hangen ar unwaith yn [Atodiad B](#).

3. Yr hyn a nodwyd gennym

Ansawdd Profiad y Claf

Adborth gan Gleifion

Yn ystod yr arolygiad, gwnaethom ddefnyddio holiaduron papur ac ar-lein i gasglu barn ac adborth gan gleifion a gofalwyr. Cwblhawyd cyfanswm o 12 o holiaduron. Cafwyd ymatebion cadarnhaol yn y rhan fwyaf o feysydd, gyda'r rhan fwyaf o bobl yn dweud bod y gwasanaeth yn 'dda iawn' (4/12) neu'n 'dda' (6/12). Cawsom sylwadau am y gwasanaeth a sut y gallai wella.

Roedd sylwadau'r cleifion yn cynnwys y canlynol:

“Mae'r staff i gyd wedi bod yn wych. Diolch am eich proffesiynoldeb a'ch gofal trylwyr.”

“Mae gofal cleifion yn dioddef adeg trosglwyddo rhwng shifftiau; roedd nodiadau yn cael eu colli dros dro a chleifion yn cael eu 'hanghofio' nes i'r teulu ymyrryd. Mae staff yr Adran Damweiniau ac Achosion Brys yn wych, ond yn cael eu gorweithio!”

“Roeddwn i'n gallu gweld bod y staff yn gweithio'n eithriadol o galed, ond roedd yn ymddangos bod y gwasanaeth dan bwysau sylweddol o ganlyniad i nifer y cleifion a oedd yn yr adran achosion brys. Rhaid ei bod yn anodd iawn a dylai'r llywodraeth ymchwilio mwy i'r lefelau staffio.”

Yn Canolbwyntio ar yr Unigolyn

Hybu iechyd

Yn yr ardal aros am driniaeth ddydd, roedd diffyg gwybodaeth i gleifion yn yr ardal aros am yr adran neu am gyflyrau iechyd. Roedd posterï yn rhoi gwybodaeth am sut y gall cleifion roi adborth am y gofal a gawsant.

Gwelsom amrywiaeth o daflenni wedi'u harddangos yn rhoi cyfarwyddiadau a chynghor a gwybodaeth hybu iechyd i gleifion ar ôl iddynt gael eu rhyddhau. Roedd y rhain ar gael i'r cleifion a'r gofalwyr fynd â nhw ymaith. Roedd codau QR yn yr adran bediatrig y gall gofalwyr eu sganio gan ddefnyddio ffôn clyfar a chael gwybodaeth am anhwylderau ac anafiadau cyffredin a sut i'w rheoli.

Gwelsom wybodaeth am anhwylderau cyffredin yn ardal aros yr uned mân anafiadau. Roedd cleifion yn cael gwybodaeth am roi'r gorau i smygu yn ystod eu harhosiad. Dywedodd y cleifion y gwnaethom siarad â nhw eu bod wedi cael cyngor ar eu cyflyrau iechyd a sut i'w rheoli yn effeithiol.

Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd arddangos gwybodaeth hybu iechyd i gleifion yn yr ardal aros.

Gofal urddasol a pharchus

Gwelsom y staff yn trin y cleifion â pharch a charedigrwydd ym mhob rhan o'r uned achosion brys. Wrth i ni gael ein tywys o amgylch am y tro cyntaf, gwelsom y staff yn esgusodi eu hunain oddi wrth yr arolygwyr er mwyn ateb ymholiadau gan gleifion. Er bod yr adran yn eithriadol o brysur, roedd yn ymddangos bod y cleifion yn aros yn amyneddgar. Gwelwyd bod y staff yn cyflawni arsylwadau ar arwyddion hanfodol i fywyd ar gleifion mewn ystafell asesu yn yr ystafell aros.

Gwelsom fod yr adran yn addas i drin cleifion fel unigolion a bod eu hanghenion yn cael eu diwallu ag urddas, trugaredd a pharch.

Gwelsom fod yr amgylchedd a oedd wedi'i adnewyddu yn hyrwyddo urddas ac yn galluogi'r staff i roi triniaethau'n breifat. Roedd ciwbiclau â waliau soled a drysau y gellir eu cloi wedi cael eu gosod yn lle lleni. Roedd ardaloedd clinigol arbennig wedi cael eu creu yn lle coridorau amgaeedig. Roedd yr ardaloedd hyn yn ymddangos yn drefnus ac yn hwyluso'r broses o arsylwi ar gleifion.

Gwelsom fod y toiledau yn gweithio'n iawn ac yn lân.

Dywedodd pob un o'r cleifion yn yr adran achosion brys eu bod wedi cael eu trin ag urddas a pharch gan y staff.

Gofal wedi'i deilwra at yr unigolyn

Gwelsom fod y cleifion yn cael gwybod am amseroedd aros yn ystod y broses frysbenneu.

Gwelsom enghreifftiau o gyfraniad tîm aml-ddisgyblaethol. Roedd yr Uned Penderfyniadau Clinigol yn cynnwys cyfarpar ffisiotherapi a therapi galwedigaethol i helpu i asesu cleifion er mwyn eu rhyddhau'n ddiogel.

Yn ystod ein harolygiad, gwelsom fod teulu neu ofalwyr gyda'r cleifion ym mhob rhan o'r Adran Achosion Brys.

Roedd yr adran bediatrig wedi'i lleoli ar wahân i'r Adran Achosion Brys ac roedd ganddi fynedfa ddiogel ar wahân. Roedd yr ardal wedi'i haddurno mewn modd sy'n addas i blant ac roedd teledu yn dangos ffilmiau i blant.

Roedd yr adran yn cynnwys dwy ystafell i berthnasau y gellid eu defnyddio i siarad ag aelodau o'r teulu mewn ardal dawel a phreifat.

Amserol

Gofal amserol

Pan wnaethom gyrraedd, roedd yr adran yn y categori uchaf o ran lefel rhybudd oherwydd y galw a oedd arni. Roedd yr ystafell aros yn yr adran gofal triniaeth ddydd yn llawn ac roedd tri ambiwlans yn aros y tu allan. Er bod yr adran yn eithriadol o brysur, nid oedd ymdeimlad o gynnwrf yn yr uned. Roedd y staff a'r rheolwyr yn ymwybodol o'r sefyllfa, ac roedd camau priodol wedi'u cymryd mewn ymateb i'r lefel rhybudd.

Gwelsom fod y cleifion yn cael eu brysbennu'n brydlon a bod cleifion priodol yn cael eu hasesu drwy weithdrefn y Parth Asesu a Thrin yn Gyflym (RATZ).

Teg

Cyfathrebu ac iaith

Gwelsom arwyddion yn tywys ymwelwyr o ardaloedd eraill yn yr ysbyty. Fodd bynnag, oherwydd gwaith adeiladu, nid oedd y rhain i'w gweld yn glir. Roedd arwyddion yn yr Adran Achosion Brys yn cyfeirio pobl i rannau gwahanol o'r adran. Fodd bynnag, gallai'r rhain fod wedi bod yn fwy ac yn gliriach i gleifion nad ydynt yn gallu gweld cystal neu y mae ganddynt ddiffyg synhwyraidd arall.

Rydym yn argymhell y dylid gwella'r arwyddion sy'n cyfeirio pobl at yr adran a hefyd o fewn yr adran.

Gwelsom wybodaeth yn yr ardal aros yn gwahodd cleifion i roi adborth. Roedd y wybodaeth hon wedi'i hysgrifennu yn Gymraeg ac yn Saesneg.

Roedd yr iaith Gymraeg yn cael ei hyrwyddo'n effeithiol yn yr Adran Achosion Brys. Gwelwyd bod y rhan fwyaf o'r arwyddion a'r wybodaeth i gleifion yn ddwyieithog.

Hawliau a Chydraddoldeb

Rhoddodd y bwrdd iechyd ei bolisi Cydraddoldeb, Cynhwysiant a Hawliau Dynol cyfredol i ni. Gwelsom dystiolaeth o ddulliau ar gyfer casglu adborth gan gleifion a staff.

Roedd yr adran wedi'i lleoli ar y llawr gwaelod ac roedd mynediad gwastad ar gyfer cleifion â phroblemau symudedd. Roedd y coridorau'n glir ac yn llydan er mwyn gallu symud yn hawdd o amgylch yr adran. Gwelsom doiledau a chyfleusterau ymolchi digonol i'r cleifion y mae angen iddynt gael mwy o le ar gyfer cyfarpar symudedd.

Roedd dwy ystafell i berthnasau a oedd yn dawel ac yn breifat gyda seddi cyfforddus.

Darparu Gofal Diogel ac Effeithiol

Diogel

Yr Amgylchedd

Ymdriniwyd â'r materion amgylcheddol a nodwyd yn dilyn yr arolygiad blaenorol ym mis Mehefin 2022. Roedd yr adran wedi bod yn destun gwaith adnewyddu sylweddol yn ystod y misoedd diwethaf. Roedd ardaloedd yn yr Uned Achosion Brys wedi'u hadleoli i sicrhau llif gwell drwy'r adran. Roedd gwaith yn mynd rhagddo o hyd yn yr ardal aros am driniaeth ddydd a dywedwyd wrthym y byddai wedi'i gwblhau erbyn diwedd mis Mawrth 2024.

Roedd yr ystafell aros yn llawn pan wnaethom gyrraedd. Roedd y seddi wedi'u gosod er mwyn rhoi digon o le i bobl symud o gwmpas. Rodd y staff yn gallu gweld y cleifion yn yr ardal aros o fynedfa'r ardal asesu. Fodd bynnag, roedd yn rhaid iddynt gerdded i mewn i'r ardal er mwyn gwneud hynny. Dywedwyd wrthym fod achos busnes wedi'i dderbyn i osod ffenestr fawr er mwyn i'r staff allu arsylwi ar yr ardal aros wrth weithio yn yr ardal asesu.

Roedd diffyg lle storio ac roedd rhai baeau segur yn cael eu defnyddio i storio.

Roedd yr adran anafiadau difrifol wedi'i hadleoli ac roedd bellach yn cynnwys ardaloedd ar wahân gyda lle i chwe throli. Roedd ardal y gellid ei gwahanu at ddibenion Atal Heintiau. Roedd y ciwbiclau wedi'u lleoli o amgylch yr orsaf nyrsio er mwyn sicrhau y gellir arsylwi ar gleifion yn hawdd. Roedd yr orsaf nyrsio yn ymddangos yn lân ac yn daclus. Roedd bae â wal wydr y gellid ei gau er mwyn atal heintiau rhag lledaenu.

Roedd y bwrdd iechyd wedi cyflwyno Parth Asesu a Thrin yn Gyflym (RATZ) lle roedd cleifion priodol yn cael asesiad, archwiliad, diagnosis a thriniaeth yn gyflym gan feddyg o'r Adran Achosion Brys. Roedd dau giwbicl asesu RATZ wedi'u lleoli wrth y fynedfa ar gyfer triniaethau dydd a'r fynedfa i ambiwlansys. Ar ôl cael asesiad a thriniaeth amserol, roedd y cleifion naill ai'n cael eu rhyddhau neu eu symud i ardal arall o'r Adran Achosion Brys. Roedd gwasanaeth RATZ yn gweithredu rhwng 10am a 10.30pm Gwelsom fod hyn yn cyflymu'r amser prosesu cleifion ac yn lleihau'r amseroedd aros ac felly'n lleihau'r pwysau ar y gwasanaeth.

Rheoli risg

Gwelsom fod yr amgylchedd ffisegol yn yr Adran Achosion Brys yn cael ei gynnal a'i gadw'n dda ar y cyfan. Gwnaethom nodi bod y rheolwyr a'r tîm ystadau wedi mynd i'r afael â rhai materion o ran yr ystad. Dywedwyd wrthym y bu oedi wrth

ymgymryd ag atgyweiriadau oherwydd prinder staff. Roedd rhai drysau wedi torri ac nid oedd cortyn tynnu mewn argyfwng yn un o'r toiledau yn yr adran anafiadau difrifol.

Dywedwyd wrthym fod y ciwbiclau wedi'u hadnewyddu yn addas i ofalu am gleifion â phroblemau iechyd meddwl. Roedd modd cwmpo rheiliau'r llenni ac nid oedd unrhyw bwyntiau clymu posibl arnynt.

Roedd asesiadau risg o ran symud a chodi a chario yn cael eu cwblhau fel rhan o'r ddogfennaeth ar gyfer derbyn cleifion i'r Adran Achosion Brys. Wrth i ni gynnal ein hadolygiad o achosion, gwelwyd bod y rhain wedi'u cwblhau ar gyfer pob claf priodol.

Yn yr Adran Achosion Brys a'r Uned Penderfyniadau Clinigol, gwelsom fod cyfarpar lleddfu pwysau ar gael ac yn cael ei ddefnyddio. Gwelsom fod dull asesu risg priodol ar gael i'r staff asesu'r risg y byddai cleifion yn datblygu briwiau pwyso.

Gwnaethom archwilio'r cofnodion gofal ar gyfer sampl o bum claf a gwelsom fod y staff wedi asesu ac ailasesu pob claf er mwyn nodi ei risg o ddatblygu niwed pwyso a lle y bo'n briodol, roedd cynllun gofal addas ar waith i'r cleifion.

Gwelsom fod dull asesu addas ar waith ar gyfer y risg o gwmpo er mwyn i'r staff asesu risg cleifion o gwmpo. Yn yr Adran Achosion Brys, roedd cynlluniau gofal ysgrifenedig ar waith ar gyfer y cleifion hynny y nodwyd eu bod yn wynebu risg bosibl o gwmpo.

Roedd amseroedd trosglwyddo ambiwlansys wedi lleihau diolch i system newydd sy'n anelu at symud cleifion oddi ar ambiwlansys o fewn un awr. Mae'r adran yn dibynnu ar gydweithrediad adrannau eraill yn yr ysbyty er mwyn gallu symud cleifion i wardiau pan fydd yr Adran Achosion Brys yn llawn.

Cynhelir cyfarfodydd rheolaidd dair i bedair gwaith y dydd er mwyn trafod y sefyllfa o ran gwelyau a'r cynllun ar gyfer unrhyw symudiadau sydd eu hangen ac i wneud cynlluniau ar gyfer cleifion sy'n aros i fynd i wardiau arbenigol. Roedd yn ymddangos bod hyn yn helpu o ran llif cleifion drwy'r adran ac i weddill yr ysbyty.

Roedd yr Uned Feddygol Acíwt wedi'i symud i'r llawr cyntaf ac roedd Uned Penderfyniadau Clinigol ag wyth gwely wedi cymryd ei lle, i gleifion yr oedd angen iddynt aros am gyfnod hirach i gael eu monitro neu eu hasesu. Roedd hyn yn golygu bod llai o gleifion yn aros yn ddiangen yn y brif adran. Roedd cyfarpar ffisiotherapi a therapi galwedigaethol ar gael yn yr Uned Penderfyniadau Clinigol er mwyn gallu asesu cleifion yr oedd angen asesiadau arnynt yn yr uned.

Atal a rheoli heintiau a dihalogi

Noddd yr arolygiad blaenorol sawl gwelliant yr oedd eu hangen o ran atal a rheoli heintiau. Ymdriniwyd â'r rhain drwy'r gwaith diweddar a wnaed yn ddiweddar i'r amgylchedd ffisegol. Gwelsom fod ardaloedd yn lân ac yn daclus. Roedd modd glanhau a dihalogi'r arwynebau, gan gynnwys y lloriau a'r seddi, yn briodol erbyn hyn.

Gwelsom fod Cyfarpar Diogelu Personol ar gael ym mhob rhan o'r Adran Achosion Brys a gwelwyd y staff yn ei ddefnyddio'n briodol. Roedd gorsafodd golchi dwylo ar gael ym mhob rhan o'r Adran Achosion Brys.

Gwelsom fod biniau offer miniog ar gael ac yn cael eu defnyddio'n briodol ym mhob rhan o'r adran.

Gwelsom fod golchfa ym mhob ardal. Roedd yn lân, yn daclus ac yn gweithio'n dda. Dywedodd y staff wrthym eu bod yn ymwybodol sut i uwchgyfeirio unrhyw broblemau â chyfarpar.

Ers y gwelliannau a nodwyd yn yr arolygiad blaenorol, cyflwynodd y bwrdd iechyd deithiau dyddiol o amgylch yr adran lle byddai aelod o staff Band 8 yn cwblhau rhestr wirio ddyddiol gan gynnwys gwiriadau atal a rheoli heintiau.

Yn yr adran adfywio a'r adran anafiadau difrifol, gwelsom giwbiclau preifat â drysau a oedd yn golygu y gellid ynysu cleifion er mwyn atal heintiau rhag lledaenu.

Gwelsom fod archwiliadau hylendid dwylo ac archwiliadau amgylcheddol wedi'u cwblhau ar gyfer yr adran gyfan.

Diogelu plant ac oedolion

Gwelsom fod system gadarn ar waith yn y ddogfennaeth asesu bediatrig i nodi problemau o ran diogelu. Roedd cyfres o gwestiynau manwl yn cael eu gofyn i gleifion a gofalwyr yn ystod y broses dderbyn er mwyn nodi ac uwchgyfeirio mater diogelu.

Rheoli gwaed

Disgrifiodd y staff y broses ar gyfer rhoi gwaed yn ddiogel a oedd yn broses yr oedd angen dwy nyrs ar ei chyfer â phrotocol clir ar waith. Dywedwyd wrthym fod y staff yn cwblhau hyfforddiant cymhwysedd cyn y gallant roi cynhyrchion gwaed a gwelsom fod cofrestr o staff sydd wedi cael hyfforddiant cymwys yn cael ei chadw.

Rheoli dyfeisiau a chyfarpar meddygol

Gwelsom fod amrywiaeth o gyfarpar ar gael i'r staff er mwyn diwallu anghenion y cleifion. Roedd y cyfarpar a welsom yn lân yr olwg ac mewn cyflwr da. Fodd bynnag, gwelsom dri darn o gyfarpar yn yr adran adfywio oedd wedi'u labelu â sticeri yn dangos bod y dyddiad gwasanaethu wedi mynd heibio.

Disgrifiodd y staff system newydd lle roedd angen cynnal Profion Offer Cludadwy bob tair blynedd. Fodd bynnag, roedd y sticeri ar y cyfarpar trydan cludadwy yn dangos bod angen profion blynyddol gan nad oedd y rhain wedi cael eu tynnu cyn rhoi'r system newydd ar waith.

Ar ôl uwchgyfeirio hyn ar unwaith i'r nyrs â chyfrifoldeb, dywedwyd wrthym nad oeddent yn defnyddio labeli mwyach a bod pob cofnod gwasanaethu yn cael ei reoli'n ddigidol. Dywedwyd wrthym, oherwydd prinder adnoddau, nad oedd y labeli wedi cael eu tynnu a bod asesiad risg wedi'i roi i ni. Fodd bynnag, ni chawsom sicrwydd bod y broses ar gyfer gwasanaethu cyfarpar meddygol yn ddigon cadarn ac felly ymdriniwyd â'r mater hwn drwy'r broses sicrwydd ar unwaith.

Rheoli Meddyginiaethau

Roedd polisi ysgrifenedig ar gael ar gyfer rheoli meddyginiaethau.

Gwelsom fod ystafelloedd storio bob amser yn cael eu cloi a bod angen cardiau allwedd er mwyn cael mynediad iddynt er mwyn atal mynediad heb awdurdod.

Gwnaethom edrych hefyd ar y cofnodion ar gyfer Cyffuriau a Reolir a gwelsom fod cofnodion yn cael eu cwblhau fel rhan o restr wirio ddyddiol yr uwch-reolwr. Gwnaethom nodi bod cyffuriau yn y cwpwrdd cyffuriau a reolir yn yr adran adfywio nad oeddent yn cael eu defnyddio'n aml ac y gellid eu tynnu oddi yno er mwyn rhoi mwy o le ar gyfer meddyginiaethau a ddefnyddir yn amlach.

Yn ystod yr arolygiad, gwelsom feddyginiaeth yr oedd y dyddiad arni wedi mynd heibio yn yr ystafell cyffuriau adfywio. Gwnaethom dynnu sylw'r nyrs â chyfrifoldeb at hyn a chafwyd gwared ar y meddyginiaethau ar unwaith. Ni chawsom sicrwydd bod gwiriadau stoc rheolaidd yn cael eu cynnal a oedd yn peri risg y byddai meddyginiaeth yr oedd y dyddiad arni wedi mynd heibio yn cael ei rhoi i gleifion. Ymdriniwyd â hyn drwy ein proses Sicrwydd ar Unwaith.

Gwnaethom archwilio gwiriadau tymheredd yr oergelloedd ym mhob ardal a gwelsom eu bod yn cael eu gwirio'n briodol ar y cyfan gan ddefnyddio'r system gwirio cod QR digidol. Fodd bynnag, nid oedd yr oergell yn yr ardal anafiadau difrifol wedi cael ei chysylltu â'r system ddigidol ac ni chawsom sicrwydd bod y gwiriadau tymheredd wedi'u cwblhau. Ymdriniwyd â hyn drwy ein proses Sicrwydd ar Unwaith.

Effeithiol

Gofal Effeithiol

Gwelsom fod sawl llwybr carlam ar waith gan gynnwys llwybr gynaeoleg, llwybr ar gyfer toriad yng Ngwddf y Ffemwr, llwybr Strôc a llwybr Sepsis.

Disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff fentrau i ddatblygu a gwella'r gwasanaeth a ddarperir i gleifion. Roedd hyn yn cynnwys system eFrysbennewydd lle gall y cleifion hunanfrysbennewydd gan ddefnyddio un o naw gorsaf ddigidol sydd wedi'u lleoli yn y fynedfa i'r adran. Dywedwyd wrthym y byddai'r system hon ar waith erbyn diwedd mis Mawrth 2024. Bydd nyrs frysbennewydd yn goruchwyllo'r system fel cam diogelwch er mwyn sicrhau bod cleifion yn cael eu blaenoriaethu'n gywir.

Dywedodd yr uwch-reolwyr wrthym eu bod wedi dechrau menter ar gyfer staff newydd er mwyn lleihau trosiant a gwella lefelau cadw staff.

Gwelsom fod systemau technoleg gwybodaeth addas ar waith ar gyfer caffael a rhannu gwybodaeth berthnasol, casglu data ar gyfer gweithgarwch archwilio a llunio adroddiadau rheoli. Gwelsom fod system newydd wedi'i chyflwyno i ddigideiddio'r gwiriadau adfywio. Dywedwyd wrthym fod y staff yn sganio cod QR a bod gwybodaeth yn cael ei lanlwytho i gronfa ddata ganolog.

Ers yr arolygiad blaenorol, mae'r rheolwyr wedi cyflwyno taith ddyddiol o amgylch yr adran lle maent yn cwblhau rhestr wirio sy'n cynnwys gwiriadau adfywio a meddyginiaeth, prosesau trosglwyddo cleifion a lefelau staffio.

Maeth a hydradu

Roedd un o'r gwelliannau a oedd yn ofynnol o'r arolygiad blaenorol yn ymwneud â rhoi cymorth maeth. Ers yr arolygiad diwethaf, mae'r bwrdd iechyd wedi recriwtio deietegydd sy'n gweithio yn yr Adran Achosion Brys i roi cymorth ac i gynnal asesiadau risg maeth.

Gwelsom fod y cleifion yn yr ardal adfywio yn cael bwyd a diodydd fel sy'n ofynnol. Gwelsom asesiadau risg maeth yn y nodiadau nyrsio. Fodd bynnag, roedd y cleifion yn yr ardal hon yn wael iawn ac yn aml nid oeddent yn gallu bwyta nac yfed ac felly roeddent yn cael eu hydradu drwy wythien. Roedd dŵr ar gael i'r cleifion hynny oedd yn gallu yfed. Gwelwyd bod y staff yn defnyddio siartiau cydbwysedd hylif Cymru Gyfan.

Gwelsom hefyd fod ymdrechion yn cael eu gwneud yn yr Uned Achosion Brys a'r Uned Asesu i ddatblygu'r gwasanaethau a ddarperir gan y Groes Goch er mwyn gwella profiad y claf.

Cofnodion cleifion

Gwelwyd bod fformat y cofnodion gofal a ddefnyddir ar gyfer cleifion yn yr Adran Achosion Brys yn anhrefnus ac yn anodd ei ddilyn. Roedd dogfennau papur yn rhydd ac nid oeddent yn cael eu cadw mewn trefn benodol. Yn aml, roedd nodiadau a ysgrifennwyd â llaw yn annarllenadwy ac nid oeddent bob amser wedi'u llofnodi a'u dyddio gan yr ymarferydd sy'n gwneud y cofnod.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod nodiadau'r cleifion yn drefnus ac yn ddarllenadwy ac yn cynnwys llofnodion staff meddygol. Dylid adolygu'r nodiadau meddygol er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei gynnal.

Er eu bod yn anodd eu dilyn, gwelsom fod y cynlluniau gofal a'r asesiadau risg yn cael eu cwblhau'n briodol.

Effeithlon

Effeithlon

Gwelsom dystiolaeth fod llwybrau cadarn ar waith yn y nodiadau achos. Roedd gan y staff y gwnaethom siarad â nhw wybodaeth dda am y llwybrau ac roeddent yn gwybod ble i gael gfael ar bolisiau a gweithdrefnau.

Ansawdd Rheolaeth ac Arweinyddiaeth

Adborth gan Staff

Ymatebodd 23 o aelodau o staff i'n holiadur staff. Roedd ymatebion y staff yn gymysg, ac roedd y rhan fwyaf o'r ymatebwyr yn fodlon ar ansawdd y gofal a'r cymorth y maent yn ei roi i gleifion (17/23). Fodd bynnag, nid oedd cymaint o'r ymatebwyr yn cytuno y byddent yn fodlon ar safon y gofal a ddarparwyd gan eu hysbyty iddyn nhw eu hunain neu eu ffrindiau a'u teulu (13/23), ac y byddent yn argymhell eu sefydliad fel man gwaith (15/23).

Cawsom sylwadau cyffredinol a sylwadau ar sut y gallai'r adran wella'r gwasanaeth a ddarperir ganddi; dyma rai ohonynt:

“Mae tîm yr Uned Achosion Brys yn dîm gwych i weithio ynddo. Ceir cyfathrebu da o fewn y tîm amlddisgyblaethol a chaiff gofal cleifion ei reoli'n ddiogel gan ddangos urddas a pharch. Mae rhai o'r staff asiantaeth anhygoel sy'n cael eu defnyddio er mwyn ychwanegu at dîm yr Uned Achosion Brys yn rhan bwysig iawn o'r hyn sy'n ein galluogi i gyflawni hyn, a byddem yn ei chael hi'n anodd ateb y galw hebddynt.”

“Mae'n gywilydd gennyf ddweud bod “clociau” a thargedau mympwyol yn cael llawer mwy o flaenoriaeth na gofal cleifion. Mae'r pwysau cyson diangen i ymateb i gleifion sy'n cyrraedd mewn ambiwlansys ar y funud olaf yn dorcalonnus ac yn annheg iawn o ran sicrhau gofal priodol i'r cleifion, ac yn rhoi pwysau diangen ar staff, gan gynyddu lefelau straen. Mae'r ymyrryd cyson gan adran allanol yn llethol, ac mae'r ffaith bod tîm rheoli'r Adran Achosion Brys yn gadael i hyn ddigwydd, yn hytrach na sicrhau bod y cleifion a'r staff yn cael eu trin ag urddas heb gael eu bwlio i mewn i sefyllfaoedd adweithiol, yn arwydd pellach o wendid y tîm hwnnw.”

Dylai'r bwrdd iechyd fyfyrrio ar y sylwadau hyn a rhoi adborth i staff.

Arweinyddiaeth

Llywodraethu ac Arweinyddiaeth

Gwnaethom gadarnhau bod strwythur rheoli addas ar waith yn yr Adran Achosion Brys a disgrifiodd uwch-aelodau o'r staff linellau adrodd ac uwchgyfeirio clir.

Yn dilyn yr argymhellion o'r arolygiad diwethaf, rhoddwyd rota band 8 ar waith i sicrhau bod staff ar lefel uwch yn cael eu gweld bob dydd yn yr adran. Roedd

pedwar rheolwr band 8 a fyddai'n gweithio ar system gylchdro wythnosol i gefnogi'r staff yn uniongyrchol ar lawr yr adran. Roedd hyn yn golygu y gellid delio ag unrhyw fater a'u huwchgyfeirio i lefel uwch ar unwaith.

Disgrifiwyd trefniadau addas ar gyfer rhannu gwybodaeth am ansawdd a diogelwch. Gwelsom fod cyfarfodydd diogelwch yn cael eu cynnal yn rheolaidd drwy gydol y dydd gan drafod y statws uwchgyfeirio presennol a thynnu sylw at feysydd o bryder.

Rhoddodd uwch-aelodau o'r staff enghreifftiau o'r archwiliadau a gynhelir yn yr Adran Achosion Brys. Roedd y rhain yn ystyried meysydd sy'n berthnasol i'r ddwy uned, fel adborth gan gleifion a staff, yr amgylchedd a chyfleusterau, cwblhau dogfennau asesu risg i gleifion ac atal a rheoli heintiau. Fodd bynnag, nid oedd canlyniadau gweithgareddau archwilio yn cael eu harddangos.

Dylai'r bwrdd iechyd ystyried arddangos canlyniadau gweithgareddau archwilio yn yr adran.

Drwy gydol ein harolygiad, roedd uwch-aelodau o'r staff ar gael i siarad â thîm arolygu AGIC a gwnaethant gymryd rhan mewn modd cadarnhaol iawn yn y broses.

Y Gweithlu

Gweithlu Medrus a Galluog

Gwnaethom gadarnhau bod staff meddygol, staff nyrsio, gweithwyr proffesiynol perthynol i iechyd a staff cymorth yn gweithio yn yr adran. Fodd bynnag, nododd uwch-reolwyr bod rhai problemau o ran recriwtio meddygon ar raddfa ganolig, a dywedwyd wrthym fod cynllun wedi'i roi ar waith i ddatrys hyn.

Cadarnhaodd uwch-aelodau o staff fod sawl swydd wag, ar gyfer staff band 6 yn bennaf, a bod proses recriwtio'n mynd rhagddi i lenwi'r swyddi gwag hyn. Dywedwyd wrthym fod yr adran wedi gallu cynyddu lefelau staffio ar gyfer yr Uned Penderfyniadau Clinigol Pediatrig. Gwelsom fod y lefelau staffio yn briodol ym mhob ardal a dywedwyd wrthym y gellir symud staff o amgylch yn dibynnu ar lefel aciwtedd pob ardal.

Gwelsom fod y bwrdd iechyd wedi rhoi cynllun sefydlu ar waith ar gyfer staff newydd gyda'r nod o wella lefelau cadw staff. Roedd Uwch-Nyrs ar gyfer Datblygiad Proffesiynol wedi cael ei recriwtio i gefnogi staff newydd ac roedd AGC wedi cael adborth cadarnhaol am y broses hon.

Gwelwyd tystiolaeth fod canran briodol o'r staff yn cydymffurfio â hyfforddiant. Fodd bynnag, gwelsom feysydd yr oedd angen eu gwella gan gynnwys diogelwch tân, Cynnal Bywyd Sylfaenol a Chynnal Bywyd Brys Pediatrig.

Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod cyfraddau cydymffurfio ar gyfer hyfforddiant yn cael eu gwella o ran diogelwch tân, Cynnal Bywyd Sylfaenol a Chynnal Bywyd Brys Pediatrig.

Diwylliant

Ymgysylltu â phobl, adborth a dysgu

Dywedodd y staff wrthym fod y rheolwyr yn weladwy. Nododd y staff eu bod yn cael eu hannog i gyfrannu at waith trawsnewid. Ar y cyfan, rhoddodd y staff adborth cadarnhaol ar y gwelliannau a wnaed dros y ddwy flwyddyn ddiwethaf.

Dywedwyd wrthym fod themâu a phryderon wedi cael eu holrhain a'u monitro ar ddangosfwrdd yr adran. Gwelsom y gellid tynnu gwybodaeth o'r dangosfwrdd yn hawdd er mwyn darparu adroddiadau ar gyfer cyfarfodydd a sgrymiau.

Dull systemau cyfan

Gweithio mewn partneriaeth a datblygu

Roedd yn ymddangos bod gan yr adran gydberthnasau gwaith da â rhanddeiliaid fel Ymddiriedolaeth Gwasanaethau Ambiwlans Cymru o ran eu gwaith i wella amseroedd aros ambiwlansys. Cawsom adborth cadarnhaol gan staff yr Ymddiriedolaeth yn ystod ein harolygiad ar y gwelliannau a wnaed.

Dywedwyd wrthym fod prosesau integreiddio ehangach rhwng yr Adran Achosion Brys a rhannau eraill o'r bwrdd iechyd yn gweithio i wella amseroedd aros. Esboniodd y staff fod llinell ffôn i feddygon teulu allu siarad â meddyg ymgynghorol ar waith gyda'r nod o atal ymweliadau diangen â'r adran.

4. Y camau nesaf

Lle rydym wedi nodi gwelliannau a phryderon uniongyrchol yn ystod ein harolygiad y mae'n ofynnol i'r gwasanaeth gymryd camau yn eu cylch, nodir y rhain yn y ffyrdd canlynol yn atodiadau'r adroddiad hwn (lle y bônt yn gymwys):

- Atodiad A: Yn cynnwys crynodeb o unrhyw bryderon am ddiogelwch cleifion a gafodd eu huwchgyfeirio a'u datrys yn ystod yr arolygiad
- Atodiad B: Yn cynnwys unrhyw bryderon uniongyrchol am ddiogelwch cleifion lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella ar unwaith yn dweud wrthym am y camau brys y mae'n eu cymryd
- Atodiad C: Yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Dylai'r cynlluniau gwella wneud y canlynol:

- Nodi'n glir sut yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd
- Sicrhau bod y camau a gymerir mewn ymateb i'r materion a nodwyd yn benodol, yn fesuradwy, yn gyflawnadwy, yn realistig ac wedi'u hamseru
- Cynnwys digon o fanylion er mwyn rhoi sicrwydd i AGIC a'r cyhoedd yr ymdrinnir â'r canfyddiadau a nodwyd yn ddigonol
- Sicrhau bod y dystiolaeth ofynnol yn erbyn y camau a nodwyd yn cael ei rhoi i AGIC o fewn tri mis i'r arolygiad.

O ganlyniad i ganfyddiadau'r arolygiad hwn, dylai'r gwasanaeth wneud y canlynol:

- Sicrhau nad yw'r canfyddiadau yn systemig ar draws rhannau eraill o'r sefydliad ehangach
- Rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i AGIC pan fydd camau yn dal i fod heb eu cymryd a/neu ar y gweill, er mwyn cadarnhau pan fyddant wedi cael eu cwblhau.

Caiff y cynllun gwella, ar ôl cytuno arno, ei gyhoeddi ar [wefan](#) AGIC.

Atodiad A - Crynodeb o bryderon a ddatryswyd yn ystod yr arolygiad

Mae'r tabl isod yn crynhoi'r pryderon a gafodd eu nodi a'u huwchgyfeirio yn ystod ein harolygiad. Oherwydd yr effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion, roedd angen rhoi sylw i'r pryderon hyn ar unwaith, yn ystod yr arolygiad.

Pryderon uniongyrchol a nodwyd	Effaith/effaith bosibl ar ofal a thriniaeth y cleifion	Sut gwnaeth AGIC uwchgyfeirio'r pryder	Sut cafodd y pryder ei ddatrys
Cafodd y troli sepsis ei gloi	Roedd hyn yn peri risg y gallai rhywun gael mynediad heb awdurdod i gyfarpar meddygol a meddyginiaeth ar y troli.	Hysbysodd AGIC y nyrs â chyfrifoldeb ar unwaith.	Cafodd y troli sepsis ei gloi ar unwaith a rhoddwyd gwybod i'r staff y dylid sicrhau bod troliâu sy'n cynnwys meddyginiaeth bob amser yn cael eu cadw ar glo.
Tynnwyd meddyginiaeth yr oedd y dyddiad arni wedi mynd heibio o'r ystafell feddyginiaeth yn yr adran adfywio	Roedd hyn yn peri risg y gellid rhoi meddyginiaeth y mae'r dyddiad arni wedi mynd heibio i gleifion a allai arwain at niwed.	Hysbysodd AGIC y nyrs â chyfrifoldeb ar unwaith.	Tynnwyd y feddyginiaeth yr oedd y dyddiad arni wedi mynd heibio oddi yno a'i gwaredu ar unwaith. Cynhaliwyd gwiriad stoc er mwyn gwneud yn siŵr bod yr holl feddyginiaeth yn gyfredol.

Atodiad B - Cynllun Gwella ar Unwaith

Gwasanaeth: Ysbyty Athrofaol Cymru, Yr Adran Achosion Brys

Dyddiad yr arolygiad: 4 - 6 Mawrth 2024

Yr hyn sydd angen ei wella	Safon/ Rheoliad	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
----------------------------	-----------------	-----------------------------------	------------------	----------

Canfyddiadau - Meddyginiaeth

Gwnaethom edrych ar gofnodion o'r gwiriadau tymheredd a gynhaliwyd ar yr oergell feddyginiaeth yn yr Adran Anafiadau Difrifol, a gwelsom fod sawl bwlch yn y cofnodion. Felly, ni chawsom sicrwydd bod gwiriadau cyson yn cael eu cynnal. Mae'r gwiriadau yn hanfodol er mwyn sicrhau bod meddyginiaeth y mae angen ei chadw yn yr oergell yn cael ei chadw ar dymheredd penodol o fewn y paramedrau cywir, er mwyn sicrhau bod y feddyginiaeth yn hyfyw ac yn ddiogel i'w defnyddio.

Gwelsom enghreifftiau o feddyginiaethau yr oedd y dyddiad arnynt wedi mynd heibio (y cafwyd gwared arnynt ar unwaith pan wnaethom godi'r mater â'r staff). Fodd bynnag, nid oedd digon o dystiolaeth i ddangos bod system gadarn ar waith, i sicrhau bod cyffuriau yn cael eu gwirio a'u cylchdroi'n rheolaidd. Mae hyn yn hanfodol er mwyn sicrhau nad oes unrhyw bosibilrwydd y caiff meddyginiaeth y mae'r dyddiad arni wedi mynd heibio ei rhoi i gleifion.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none">Rhoi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i ddangos bod gwiriadau addas yn cael eu cynnal bob dydd o oergelloedd yr Adran Achosion Brys a'u bod yn cael eu cofnodi.	Safon - Diogel	- Caiff cofnodion o wiriadau tymheredd dyddiol oergelloedd yr adran eu gwirio gan y Nyrs â Chyfrifoldeb fel rhan o'i thaith ddyddiol o amgylch yr adran ac yna bydd yr Uwch-Nyrs hefyd yn sicrhau cydymffurfiaeth pan fydd yn cerdded o amgylch yr adran bob dydd (o ddydd Llun i ddydd Gwener).	Nyrs Arweiniol	Wedi'i gwblhau
---	----------------	--	----------------	----------------

		<ul style="list-style-type: none"> - Atgyfnerthu'r gofyniad i gynnal gwiriadau dyddiol o'r oergelloedd a'u cofnodi drwy ddiweddariadau briffio diogelwch "<i>fortnightly focus</i>" yr adran. - Ehangu'r defnydd o'r dulliau electronig a ddefnyddir i gofnodi gwiriadau drwy iPad ac AMaT ar gyfer trolïau adfywio'r adran i'r broses o wirio oergelloedd. 	Nyrs Arweiniol	Dechrau 25.03.24
			Nyrs Arweiniol	28 Mawrth 2024
<ul style="list-style-type: none"> • Rhoi manylion i AGIC am system gadarn lle caiff cyffuriau eu gwirio a'u cylchdroi'n rheolaidd er mwyn sicrhau y caiff meddyginiaethau y mae'r dyddiad arnynt wedi mynd heibio eu gwaredu er mwyn osgoi'r posibilrwydd y cânt eu rhoi i gleifion. 		<ul style="list-style-type: none"> - Mae technegydd fferylliaeth yr uned yn cynnal gwiriadau o stoc cyffuriau pob Omnicell yn yr uned ac yn gwaredu unrhyw feddyginiaethau y mae'r dyddiad arnynt wedi mynd heibio. - Ar y cyd â'r fferyllfa, llunio rhestr o feddyginiaethau a ddefnyddir yn llai aml neu sydd ag oes silff fyrrach a rhoi system ar waith ar gyfer gwirio a gwaredu'r stoc hon. 	Nyrs Arweiniol	Wedi'i gwblhau
			Nyrs Arweiniol	28 Mawrth 2024
				Nyrs Arweiniol

		- Bydd yr adran yn parhau i sicrhau bod dwy nyrs yn cynnal gwiriadau o hylif mewnwythiennol cyn ei roi.		
--	--	---	--	--

Canfyddiadau - Monitro cyfarpar

Ni welsom ddigon o dystiolaeth i ddangos fod y broses o wasanaethu'r cyfarpar yn cael ei chwblhau, ei chofnodi, ei monitro a'i rhannu'n effeithiol â'r staff clinigol mewn modd amserol. Gwnaethom archwilio sawl eitem o gyfarpar arsylwi a monitro cleifion, ynghyd â rhywfaint o gyfarpar clinigol (gan gynnwys cyfarpar cynhesu gwaed) oedd â sticeri yn dangos bod y dyddiadau gwasanaethu wedi mynd heibio. Nid oedd y clinigwyr y gwnaethom siarad â nhw yn gallu cadarnhau a oedd y cyfarpar roeddent yn ei ddefnyddio o fewn yr ystod galibradu gywir pan oeddent yn trin cleifion. Cawsom rywfaint o wybodaeth gan yr adran cyfarpar clinigol i ddangos bod y cyfarpar wedi cael ei wasanaethu ac y byddai'n ddiogel i'w ddefnyddio. Fodd bynnag, nid oedd y wybodaeth hon ar gael yn hawdd i'r clinigwyr. O'r trafodaethau a gynhaliwyd, gwelsom fod hyn yn peri dryswch ac, yn y pen draw, y gallai arwain at oedi wrth ddarparu gofal diogel ac amserol i'r cleifion.

Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi manylion i AGIC am y camau a gymerwyd i wneud y canlynol: <ul style="list-style-type: none"> Rhoi sicrwydd i glinigwyr bod system gadarn ar waith ar gyfer monitro'r broses o 	Safon - Diogel	- Anfon rhestr o gyfarpar na ellir cael gafael arno ac y mae'r dyddiad arno wedi mynd heibio i Reolwyr	Pennaeth Peirianeg Glinigol	I ddechrau ym mis Mawrth 2024
---	----------------	--	-----------------------------	-------------------------------

<p>wasanaethu a chynnal a chadw cyfarpar clinigol a chyfarpar arsylwi ym mhob rhan o'r adran. Dylid rhoi sicrwydd parhaus a rheolaidd yn hyn o beth i arweinwyr adrannol.</p> <ul style="list-style-type: none"> Tynnu sticeri cynnal a chadw nad ydynt yn gyfredol oddi ar gyfarpar sydd wedi cael ei wasanaethu / ei brofi o fewn terfynau amser derbyniol. Dylai fod sticeri ar gyfarpar nad oes angen ei galibradu er mwyn dileu'r risg bosibl o oedi wrth roi triniaeth. Cyfleu gwahaniaeth clir rhwng cyfarpar y mae angen ei galibradu'n glinigol a chyfarpar sydd ond yn destun system profi offer cludadwy. <p>Mae'n ofynnol i'r bwrdd iechyd roi cofnod gwasanaethu cyfredol i AGIC ynghyd â dyddiadau ar gyfer yr holl gyfarpar meddygol a gaiff ei fonitro a'i wasanaethu drwy'r tîm peirianeg feddygol yn yr adran achosion brys.</p>		<p>Gwasanaeth yr Uned Achosion Brys bob chwarter.</p> <ul style="list-style-type: none"> Yr Uned Peirianeg Glinigol i ymweld â'r Uned Achosion Brys i dynnu'r holl sticeri cynnal a chadw nad ydynt yn gyfredol ar gyfer cyfarpar a gaiff ei wasanaethu/ei brofi. Gwasanaethu'r holl gyfarpar y mae'r dyddiad gwasanaethu arno wedi mynd heibio. Anfon gohebiaeth i bob rhan o'r BIP yn sôn am y newidiadau i'r amserlenni profi. Cynnwys y cofnod gwasanaethu. 	<p>Pennaeth Peirianeg Glinigol</p> <p>Pennaeth Peirianeg Glinigol</p> <p>Pennaeth Peirianeg Glinigol</p> <p>Pennaeth Peirianeg Glinigol</p>	<p>28 Mawrth 2024</p> <p>30 Ebrill 2024</p> <p>30 Ebrill 2024</p> <p>Wedi'i gwblhau</p>
--	--	---	---	---

		 EU PPM HIW (colour coded).xlsx		
--	--	---	--	--

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth:

Enw (priflythrennau): Jane Murphy

Swydd: Cyfarwyddwr Nyrsio ar gyfer y Bwrdd Clinigol Meddygaeth

Dyddiad: 13 Mawrth 2024

Atodiad C - Cynllun gwella

Gwasanaeth: Ysbyty Athrofaol Cymru, Yr Adran Achosion Brys

Dyddiad yr arolygiad: 4, 5 a 6 Mawrth 2024

Mae'r tabl isod yn cynnwys unrhyw welliannau eraill a nodwyd yn ystod yr arolygiad, lle rydym yn gofyn i'r gwasanaeth gwblhau cynllun gwella sy'n dweud wrthym am y camau y mae'n eu cymryd i fynd i'r afael â'r meysydd hyn.

Risg/canfyddiad/mater	Yr hyn sydd angen ei wella	Camau gweithredu gan y gwasanaeth	Swyddog cyfrifol	Amserlen
Nid oedd gwybodaeth hybu iechyd ddigonol wedi'i harddangos yn yr ardaloedd i gleifion.	Rydym yn argymhell y dylai'r bwrdd iechyd arddangos gwybodaeth hybu iechyd i gleifion yn yr ardal aros.	<p>Ar hyn o bryd, mae'r gyfarwyddiaeth yn gosod taflenni hybu iechyd mewn rheseli ar y waliau ac mae Tîm Profiad y Claf yn eu hail-lenwi bob wythnos.</p> <p>Hefyd, mae'r clinigwyr yn rhoi deunydd hybu iechyd perthnasol i unigolion yn ôl yr angen. Arsylwodd tîm arolygu AGIC ar un claf yn cael gwybodaeth ysgrifenedig am roi'r gorau i smygu yn ystod ei ymweliad.</p>		

		<p>Cydnabyddir nad oes byrddau hybu iechyd arbenigol penodol ond mae diffyg lle ar y waliau yn ein cyfyngu yn hyn o beth. Yn hytrach, bydd y gyfarwyddiaeth yn ystyried opsiynau digidol ar gyfer rhannu gwybodaeth hybu iechyd yn yr ardal aros drwy'r teledu</p>	<ul style="list-style-type: none"> Nyrs Arweiniol a Rheolwr Cyffredinol, Y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Acíwt 	31 Mai 2024
<p>Nid oedd yr arwyddion sy'n cyfeirio pobl i'r adran yn ddigonol. Er i ni weld rhai arwyddion yn cyfeirio pobl i ardaloedd gwahanol yn yr adran, nid oedd yn ymddangos eu bod wedi cael eu diweddarau ers y gwaith uwchraddio ac adleoli diweddar.</p>	<p>Rydym yn argymhell y dylid gwella'r arwyddion sy'n cyfeirio pobl at yr adran ac i ardaloedd penodol yn yr adran.</p>	<ul style="list-style-type: none"> Ail-lunio map yr adran ers adleoli'r ardaloedd clinigol. Llunio rhestr o'r arwyddion ychwanegol sydd eu hangen a'i hanfon at yr Uned Ystadau Cyfalaf gyda chais am arwyddion parhaol Bydd y gyfarwyddiaeth yn 	<ul style="list-style-type: none"> Nyrs Arweiniol a Rheolwr Cyffredinol, Y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Acíwt 	31 Mai 2024

		trafod yr arwyddion ychwanegol sydd eu hangen yn yr adran â'r Adran Ystadau a Chyfleusterau er mwyn gweld a ellid gwella'r sefyllfa		
Wrth edrych ar y cofnodion cleifion, gwelsom fod nodiadau yn anhrefnus ac yn anodd eu dilyn. Yn ogystal, gwelsom yn aml nad oedd y staff meddygol yn llofnodi cofnodion.	Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau bod nodiadau'r cleifion yn drefnus ac yn ddarllenadwy ac yn cynnwys llofnodion staff meddygol. Dylid adolygu'r nodiadau meddygol er mwyn sicrhau bod hyn yn cael ei gynnal.	<ul style="list-style-type: none"> Atgoffa pob aelod o'r staff drwy sesiwn briffio diogelwch, y cyfryngau cymdeithasol a negeseuon e-bost y dylid cadw nodiadau mewn trolïau nodiadau dynodedig ym mhob ardal glinigol a'u trefnu'n briodol er mwyn gallu cyfeirio atynt yn hawdd at ddibenion clinigol. 	<ul style="list-style-type: none"> Nyrs Arweiniol a Chyfarwyddwr Clinigol y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Aciwt Nyrs Arweiniol a Chyfarwyddwr Clinigol y Gyfarwyddiaeth 	<ul style="list-style-type: none"> 31 Mai 2024 Rhoi diweddariad ar ddichonoldeb

		<ul style="list-style-type: none"> • Ystyried yr opsiynau ar gyfer cadw cofnodion digidol yn yr Adran Achosion Brys • Pwysleisio'r ffaith bod yn rhaid i staff meddygol lofnodi a dyddio cofnodion a chadw cofnodion meddygol darllenadwy drwy'r fforymau canlynol:- • Cyfarfodydd trosglwyddo • Proses sefydlu'r adran 	<p>Meddygaeth Frys ac Aciwt</p> <ul style="list-style-type: none"> • Cyfarwyddwr Clinigol y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Aciwt 	<p>erbyn 30 Mehefin 2024</p> <ul style="list-style-type: none"> • 30 Mehefin 2024
--	--	---	--	--

		<ul style="list-style-type: none"> • Cyfarfod meddygon ymgynghorol • Sesiynau addysgu adrannol cyffredinol 		
<p>Wrth edrych ar hyfforddiant staff, nodwyd cyfraddau cydymffurfio isel ar gyfer hyfforddiant diogelwch tân, Cynnal Bywyd Sylfaenol a Chynnal Bywyd Brys Pediatrig. Mae'n ofynnol i'r staff fod yn gymwys yn y meysydd hyn er mwyn helpu os bydd argyfwng.</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd sicrhau y caiff cyfraddau cydymffurfio ar gyfer hyfforddiant diogelwch tân, Cynnal Bywyd Sylfaenol a Chynnal Bywyd Brys Pediatrig eu gwella.</p>	<p>Mae'r gyfarwyddiaeth wedi cymryd y camau canlynol i wella cydymffurfiaeth e-ddysgu'r staff ar gyfer hyfforddiant Cynnal Bywyd Sylfaenol, diogelwch tân a Chynnal Bywyd Brys Pediatrig</p> <ul style="list-style-type: none"> • Trefnwyd sesiynau cymorth e-ddysgu i'r staff gyda'r Tîm Addysg • Caiff cyfraddau cydymffurfio ar gyfer hyfforddiant staff eu monitro bob mis drwy gyfarfodydd y Tîm Addysg. 	<ul style="list-style-type: none"> • Nyrs Arweiniol a Chyfarwyddwr Clinigol y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Aciwt 	<ul style="list-style-type: none"> • 30 Mai 2024

<p>Wrth adolygu'r holiadur staff, gwnaethom ofyn i'r staff beth y gellid ei wella yn eu barn nhw. Gwnaethom nodi sawl sylw ynghylch pwysau ar staff a'r galw.</p>	<p>Dylai'r bwrdd iechyd ystyried y sylwadau yn holiadur AGIC a rhoi adborth i'r staff.</p>	<p>Er bod Gwaith Trawsnewid a wnaed gan y gyfarwyddiaeth dros y flwyddyn ddiwethaf i sicrhau gofal cleifion amserol a llif drwy'r adran wedi bod o fudd o ran gofal cleifion, cydnabyddir ei fod weithiau wedi creu pwysau ychwanegol ar y staff.</p> <p>Mae Tîm Addysg y Gyfarwyddiaeth yn rhoi cymorth llesiant ynghyd â chyfleoedd addysg a chyfleoedd datblygu. Mae gan y tîm hwn nifer o Hyrwyddwyr Llesiant sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol. Gall aelodau o staff y mae angen cymorth arnynt gysylltu â'r aelodau hyn o staff yn uniongyrchol. Caiff Hyrwyddwyr Llesiant eu hyfforddi i nodi pa aelodau o staff y mae angen cymorth ychwanegol arnynt. Gallant</p>		
---	--	--	--	--

eu hatgyfeirio'n uniongyrchol at wasanaethau Llesiant y BIP.

Cafodd y gwaith trawsnewid ei gyflawni ar y cyd â staff yr Uned Achosion Brys ac anogwyd pob aelod o'r staff i fod yn rhan o'r prosiectau hyn.

Caiff nifer o Ddiwrnodau Tîm eu cynnal bob blwyddyn i ddod â'r staff ynghyd ac i annog cydweithrediad wrth ddatblygu'r gwasanaeth.

- Cyflwyno sesiwn i rannu adroddiad AGIC a'r cynllun gweithredu â phob aelod o'r staff. Bydd hyn yn cynnwys adborth a gafwyd gan staff ac yn rhoi cyfle i ymateb i unrhyw

- Nyrs Arweiniol a Rheolwr Cyffredinol, Y Gyfarwyddiaeth Meddygaeth Frys ac Acíwt

- 31 Mai 2024

		<p>gwestiynau am y broses o reoli'r galw.</p> <ul style="list-style-type: none"> • Hybu ac annog y staff i fynd i fforwm 'ask Suzanne' er mwyn meithrin dealltwriaeth o'r system ehangach • Hyrwyddo'r defnydd o sylwadau staff drwy Tendable. Gofyn i Arweinwyr Tîm yr Adran Achosion Brys sicrhau y gellir cael gafael ar y wybodaeth hon drwy gynnal archwiliadau dyddiol. Caiff y wybodaeth hon ei monitro gan Dîm y Gyfarwyddiaeth 	Arweinwyr Tîm yr Adran Achosion Brys	Mai 2024
--	--	---	--------------------------------------	----------

Rhaid i'r adran ganlynol gael ei chwblhau gan gynrychiolydd y gwasanaeth sydd â'r cyfrifoldeb ac atebolrwydd cyffredinol dros sicrhau bod y cynllun gwella yn cael ei roi ar waith.

Cynrychiolydd y gwasanaeth

Enw (priflythrennau): Ceri Martin

Swydd: Nyrs Arweiniol

Dyddiad: 29/4/2024